# Polisi Atal Bwlio

# *Policy for the Prevention of Bullying*

**Diweddarwyd / *Updated*: 09/2025**

**Adolygiad Nesaf / *Next Review*: 09/2028**


**Ysgol Gymraeg Y Fenni**
Heol Dewi Sant | St. David's Road
Y Fenni | Abergavenny
Sir Fynwy | Monmouthshire
NP7 6HF

**Ffôn | Tel:** 01873 852388
**Ebost | Email:** ysgolgymraegyfenni@monmouthshire.gov.uk
**Gwefan | Website:** www.ysgolyfenni.co.uk

1. **Diffiniad o fwlio**
**Mae bwlio yn ymdrech "barhaus a bwriadol i niweidio neu sarhau rhywun ac yn aml mae'n ymwneud ag anghydraddoldeb pŵer lle mae person neu grŵp o bobl yn barhaus a bwriadol yn achosi niwed emosiynol a/neu gorfforol i berson neu grŵp o bobl eraill. Gall ymddygiad bwlio achosi teimladau o ofid, ofn, unigrwydd a chywilydd.**

**Ni ddylid ystyried digwyddiadau achlysurol o ymddygiad niweidiol, pryfocio, dadlau neu gweryla rhwng unigolion sydd yr un mor bwerus yn enghreifftiau o fwlio." Cydnabyddir y gall digwyddiad untro adael dysgwr wedi'i drawmateiddio ac yn nerfus o ddial os bydd yn digwydd eto yn y dyfodol.**

Mae sawl math o fwlio, ond y tri phrif fath yw:

- Corfforol – taro, cicio, dwyn eiddo, aflonyddwch neu ymosodedd rhywiol
- Geiriol – galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau tramgwyddus
- Anuniongyrchol - taenu straeon cas am rywun, allgau rhywun o grwpiau cymdeithasol, bod yn destun sibrydion maleisus, anfon e-byst neu negesau testun maleisus ar ffonau symudol (trwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol )

Mae yna sawl categori pwysig o fwlio, gan gynnwys:

- Statws Economaidd-gymdeithasol
- Yn Seiliedig ar Ryw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Homoffobig
- Yn Seiliedig ar Ffydd
- Anghenion Addysgol Arbennig/ Anabledd
- Dawnus/Talentog
- Seiber
- Hiliol

***Digwyddiad hiliol yw "unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall."***

Mae pob digwyddiad o fwlio hiliol yn ddigwyddiad hiliol a chaiff ei adrodd i'r Awdurdod Lleol yn unol ag E-ffurflen yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, nid yw pob digwyddiad hiliol o angenrheidrwydd yn fwlio hilio. Mae bwlio hiliol yn cael ei gynnwys yn y diffiniad cyffredinol o fwlio (gweler uchod) oherwydd lliw, ethnigrwydd, diwylliant, iaith, cymuned ffydd, tras genedlaethol neu statws cenedlaethol.

2. **Ymagwedd Ysgol Gyfan tuag at Atal Bwlio**

Yn Ysgol Gymraeg y Fenni, dylai holl aelodau ein cymuned ysgol deimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu. Byddwn yn herio pob math o fwlio a gwahaniaethu ac mae ymddygiad o'r fath yn annerbyniol. Mae gan y polisi hwn gysylltiad amlwg â Pholisi Ymddygiad Positif yr Ysgol. Yn Ysgol y Fenni rydym yn hyrwyddo amgylchedd diogel, cynhwysol a pharchus i atal bwlio (gan gynnwys ar-lein)

Mae'r Ysgol yn defnyddio'r strategaethau a ganlyn:

- Ymgyfeillio
- Cyfryngwyr sy'n Gymheiriaid
- Cylch Ffrindiau
- Cefnogwyr sy'n Gymheiriaid
- Gwobrwyon Dosbarth / Ysgol Positif
- Dulliau Adferol
- Goruchwyliaeth yn ystod cyfnodau seibiant a chinio
- Wythnos Genedlaethol Gwrth-fwlio
- Polisi ymddygiad clir y mae pob aelod o staff yn eu ddilyn
- Cyfathrebu'n agored

Mae'r strategaethau hyn yn cael eu cefnogi trwy'r cwricwlwm mewn addysg Iechyd a Lles / sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, amser cylch, ysgrifennu creadigol, Drama, Hanes ac Addysg Grefyddol er mwyn atal bwlio a hyrwyddo ymddygiad positif a pherthynas dda o fewn ein hysgol.

3. **Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

Mae gan holl aelodau cymuned yr ysgol ran weithredol i'w chwarae o ran atal bwlio, hyrwyddo perthynas bositif a pharch, yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau pan fyddant yn digwydd. *(Awgrymiadau am gyfrifoldebau)*

Dylai'r Corff Llywodraethol:

- ➢ Gwneud yn siŵr fod gan bob disgybl yr hawl i ddysgu, heb ofni bwlio neu wahaniaethu.

Dylai'r Prifathro:

- Gwneud yn siŵr fod Polisi Atal Bwlio a gweithdrefnau adrodd yr ysgol, yn wybyddus i holl staff, disgyblion, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol (pan fo hynny'n briodol);
- Gwneud yn siŵr fod yr holl staff yn cael cyfle i gael hyfforddiant;
- Gwneud yn siŵr fod yna gyfle addas a digonol yn y cwricwlwm a thu allan iddo trwy raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol i archwilio materion sy'n ymwneud â phob math o fwlio a digwyddiadau gwahaniaethu;
- Gwneud yn siŵr fod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, monitro a'u hadrodd i'r Awdurdod Lleol ac yn bwydo'r wybodaeth i broses hunanwerthuso'r ysgolion;
- Adrodd i'r Corff Llywodraethol yn flynyddol.

Dylai staff:

- Derbyn, ymateb i, ystyried o ddifrif a gweithredu ar unrhyw wybodaeth a ddadlennir;
- Adrodd unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu gweld, eu hamau neu eu dadlenni i aelod staff enwebedig.

Dylai disgyblion:

- Adrodd digwyddiadau ar unwaith oherwydd gall edrych ar ddigwyddiadau awgrymu cefnogaeth i'r troseddwr;
- Dweud ar unwaith wrth rywun rydych yn ymddiried ynddynt;
- Gofyn i rieni/teulu neu athrawon am gyngor a chymorth. Os oes arnoch ormod o ofn i ddweud wrth oedolyn ar eich pen eich hun, gofynnwch i ffrind fynd gyda chi.

Dylai rhieni/gofalwyr:

- Rhoi sicrwydd i'w plentyn ei fod yn gwneud y peth cywir wrth ddweud wrthych;
- Efallai taw chi fydd y person cyntaf i wybod am unrhyw ddigwyddiad o fwlio. Ceisiwch beidio â chynhyrfu a gwnewch nodiadau a allai fod yn ddefnyddiol yn ddiweddarach;
- Cysylltu â'r ysgol;
- Gweithiio **gyda'r** ysgol i greu syniadau a fydd yn eich helpu i gynorthwyo eich plentyn.
- Gall rheini disgyblion hefyd gysylltu â Meic i gael cymorth a chyngor drwy ffonio 080 880 23456, WhatsApp 080 880 23456 a neges testun 07943 114 449.

Gwylwyr

- ❖ Mae gan wylwyr rôl hanfodol mewn ymddygiad bwlïaidd, gall tramgwyddwyr eu defnyddio fel strategaeth i ennill statws a grym mewn grŵp cyfoedion. Gallant hefyd fod â rhan gadarnhaol wrth gefnogi hawliau disgyblion, rhoi adroddiad am ddigwyddiadau a chynnal gwerthoedd yr ysgol.

**4. <u>Rheoli Digwyddiadau</u>**

*Pan mae disgybl yn rhoi adroddiad o fwlio, bydd staff yn: (i'w bersonoli isod i ychwanegu mwy o fanylion / diwygio / dileu).*

*· Ymateb yn brydlon ac yn bwyllog*
*· Gwrando ar ddisgyblion heb fod yn feirniadol*
*· Sylweddoli fod pob achos yn unigol*
*· Rhoi sicrwydd i'r disgybl ei fod/bod wedi gwneud y peth cywir drwy ddweud wrth rywun a sicrhau ei fod/bod yn deall ffiniau cyfrinachedd*
*· Ymchwilio'r digwyddiad ac adrodd yn ôl i bawb sy'n gysylltiedig, yn cynnwys rhieni/gofalwyr*
*· Dilyn y Polisi Cydberthynas ac Ymddygiad wrth ddal y tramgwyddydd/tramgwyddwyr i gyfrif*
*· Atgyweirio perthynas drwy .....*
*· Cyfle addysgu a dysgu ar gyfer y tramgwyddydd/tramgwyddwyr a gwylwyr*
*· Rhoi cefnogaeth i'r targed a'r tramgwyddydd/tramgwyddwyr*
*· Atgoffa disgyblion a theuluoedd fod ganddynt hawl i hysbysu'r Heddlu am ddigwyddiadau*

**5. <u>Digwyddiadau y tu allan i'r ysgol</u>**

Gall cryn dipyn o fwlio ddigwydd y tu allan i'r ysgol, wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, ar drafnidiaeth ysgol, ar dripiau ysgol neu ar ffonau symudol a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Mae disgwyl i bob disgybl gydymffurfio â Chod Teithio Ysgolion 2010 (gweler 'Polisi Ymddygiad' a 'Pholisi Defnydd Derbyniol').

Gall yr ysgol **gymryd camau rhesymol**, fel y gwêl y prifathro orau, i ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar redeg yr ysgol yn drefnus ac/neu a allai fod yn fygythiad i ddisgybl arall yn ystod amser ysgol neu i aelod o'r staff.

**6. <u>Gweithio gyda'r heddlu</u>**

Bydd yr ysgol yn cydweithredu â'r heddlu os yw disgybl neu riant/gofalwr wedi rhoi gwybod am ddigwyddiad. Gall rhai mathau o ymddwyn fel bwli ymwneud â thramgwyddau troseddol ac mewn achosion o'r fath bydd yr ysgol yn cysylltu â Swyddog Heddlu

Cymunedol Ysgolion). Os yw'r mater yn un brys ac os nad yw'r swyddog ar gael, bydd yr ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r heddlu er mwyn amddiffyn y person sy'n dioddef y bwlio ac ymateb mewn ffordd briodol i'r digwyddiad (gweler Polisi Trechu Trosedd Ysgolion Cymru Gyfan).

Bydd yr ysgol yn gweithio hefyd mewn partneriaeth â'r swyddog heddlu fel rhan o waith atal bwlio'r ysgol.

**7. <u>Monitro a Gwerthuso</u>**

Bydd yr ysgol yn monitro digwyddiadau o fwlio a hiliaeth er mwyn canfod patrymau ymddygiad a graddau'r bwlio. Wedyn bydd yr ysgol yn defnyddio'r data i adolygu effeithiolrwydd polisi ac arferion cyfredol a nodi blaenoriaethau fel rhan o'r broses hunanwerthuso. Hefyd, bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw ganfyddiadau neu argymhellion gan Arolygwyr Estyn, adolygiadau annibynnol neu Adroddiad Blynyddol Awdurdod Lleol i Brifathrawon.

**8. <u>Trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi</u>**

Adolygir y polisi hwn bob 3 blwyddyn neu amlach (os yw'n briodol) gyda golwg ar ganllawiau neu argymhellion newydd.